Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

# CYNLLUN CYHOEDDI CRE



COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

**Tachwedd 2002**

# CYNNWYS

## Cyflwyniad


| | |
|---|---|
| Beth ydy'r CRE? | 3 |
| Beth ydy'r cynllun cyhoeddi? | 3 |
| Alla'i gael unrhyw wybodaeth sydd ei angen arnaf? | 4 |
| Alla'i ofyn am wybodaeth sydd ddim yn y cynllun? | 4 |
| Sut mae'r cynllun yn gweithio? | 5 |
| Sut gaiff yr wybodaeth ei threfnu? | 5 |
| Sut alla'i gael yr wybodaeth? | 6 |
| A fydd yn costio rhywbeth i mi? | 8 |
| Alla'i wneud copïau o'r wybodaeth? | 9 |
| Sut alla' i wneud cwyn? | 9 |
| Ydych chi'n bwriadu adolygu'r cynllun? | 10 |


## Y cynllun cyhoeddi


| | |
|---|---|
| Y CRE fel corff | 12 |
| Hybu arfer da | 20 |
| Gwaith cyfreithiol | 21 |
| Cyhoeddiadau a hyrwyddo | 23 |
| | |
| Atodiad 1: Rhestr o ddosbarthiadau o wybodaeth | 26 |
| Atodiad 2: Ffurflen adborth | 29 |

# CYFLWYNIAD

## Beth ydy'r CRE?

Corff anllywodraethol a ariennir yn gyhoeddus yw'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, wedi ei sefydlu o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion a mudiadau dros gymdeithas deg a chyfiawn sy'n rhoi gwerth ar amrywiaeth ac sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb weithio, dysgu a byw yn rhydd oddi wrth wahaniaethu, rhagfarn a hiliaeth.

Mae gennym dair dyletswydd statudol:

- gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon;
- hybu cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil
- adolygu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a gwneud cynigion ar gyfer ei hadolygu, os oes angen.

Mae ein gwaith yn cynnwys rhychwant eang o weithgareddau.

- Rydym yn cynghori, yn cynorthwyo ac yn cynrychioli pobl yn gyfreithiol sy'n credu eu bod wedi dioddef gwahaniaethu hiliol ac sydd eisiau iawndal o dan y Ddeddf.
- Rydym yn ymchwilio i gyrff y credwn y gallent fod yn gwahaniaethu, ac yn gwneud argymhellion. Os canfyddwn dystiolaeth o wahaniaethu, fe allwn gyhoeddi rhybudd dim-gwahaniaethu. Mae gennym yr awdurdod hefyd i gyhoeddi rhybddion cydymffurfio i awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf i hybu cydraddoldeb hiliol.
- Rydym yn cynghori mudiadau ynghylch y polisïau y bydd angen iddynt eu mabwysiadu a'u gweithredu er mwyn atal gwahaniaethu hiliol ac er mwyn creu cyfleoedd cyfartal.
- Rydym yn gwneud ymchwil, ac yn cyhoeddi rhychwant each o ddeunydd, gan gynnwys cod ymarfer statudol, adroddiadau ymchwil, arweiniad i'r gyfraith, a thaflenni.
- Rydym yn rhoi cymorth ariannol i fudiadau, er mwyn ymdrin ag achosion o wahaniaethu ac er mwyn hybu cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau hiliol da.

## Beth ydy'r cynllun cyhoeddi?

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Deddf FOI) yn rhoi hawl i chi gael pob math o wybodaeth wedi'i gofnodi sy'n cael ei ddal gan awdurdodau cyhoeddus, gyda dim ond ychydig o eithriadau. Hyd nes i'r Ddeddf FOI ddod i rym yn llawn ar Ionawr 2005, mae hi'n dweud (o dan adran 19) fod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gynhyrchu rhestr o'r wybodaeth a gyhoeddir ganddynt, neu y bwriadant ei gyhoeddi, fel bod pobl yn gwybod beth sydd eisoes ar gael heb iddynt orfod gofyn amdano. Gelwir y rhestr hon yn gynllun cyhoeddi. Mae'n rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan

y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae cynlluniau cyhoeddi yn dod i mewn bob yn dipyn, sector wrth sector, gan gychwyn gydag adrannau'r llywodraeth ganol (gan gynnwys CRE) yn Nhachwedd 2002.

Mae'n rhaid i gynllun cyhoeddi gynnwys:

- y mathau neu 'ddosbarthiadau' o wybodaeth a gyhoeddir neu y bwriedir eu cyhoeddi gennym;
- sut y bwriadwn sicrhau fod y wybodaeth ar gael (er enghraifft ar bapur neu ar wefan); a
- manylion am unrhyw daliadau.

Mae'n rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth a restrir yn ein cynllun.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Ddeddf FOI gan y Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am ei weithredu (www.informationcommissioner.gov.uk).

Fe basiodd Senedd Yr Alban Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) ar 24 Ebrill 2002. Fe ddaw'r Ddeddf hon i'w llawn rym erbyn 31 Rhagfyr 2005.

## Alla'i gael unrhyw wybodaeth sydd ei angen arnaf?

Mae Deddf FOI yn rhestru rhai eithriadau i'r wybodaeth y gellwch ofyn amdano. Golyga hyn na allwn sicrhau fod rhai mathau o wybodaeth ar gael drwy ein cynllun cyhoeddi. Mae rhai eithriadau yn ddiamod. Er enghraifft, mae gan unigolion hawl i gael gwybodaeth sydd gennym amdanynt, yn unol â'u 'hawliau mynediad pwnc' o dan y Ddeddf Gwarchod Data 1998, ond byddai'r Ddeddf honno'n cael ei thorri pe baem yn gwneud yr wybodaeth honno yn gyhoeddus o dan Ddeddf FOI.

Caiff rhai eithriadau eu goleddfu. Golyga hyn fod yn rhaid i ni ystyried a yw'r budd cyhoeddus o sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn gorbwyso unrhyw eithriad sy'n ymwneud ag ef. Mae'r rhan fwyaf o'r eithriadau a restrir o dan Ddeddf FOI yn dod o fewn y categori hwn. Maen nhw'n cynnwys ymchwiliadau, gweithredu'r ddeddf, iechyd a diogelwch, a buddiannau masnachol.

Os oes eithriadau yn ymwneud â gwybodaeth arbennig, rydym yn gwneud hynny'n amlwg yn y disgrifiad.

## Alla'i ofyn am wybodaeth sydd ddim yn y cynllun?

Rydym yn sicrhau bod symiau mawrion o wybodaeth ar gael am ein gwaith fel mater o drefn. Os na fedrwch ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn ein cynllun cyhoeddi, neu ar ein gwefan, fe allwch ofyn amdano drwy ddefnyddio'r Cod Ymarfer Llywodraeth Agored ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth. O dan y Cod Llywodraeth Agored, mae gennym ymrwymiad i gyflenwi'r canlynol:

- ffeithiau a dadansoddiadau sy'n arwain at benderfyniadau polisi o bwys;
- canllawiau mewnol ar sut y mae adrannau yn ymwneud â'r cyhoedd;

- rhesymau dros benderfyniadau gweinyddol;
- gwybodaeth o dan Siarter y Dinesydd am wasanaethau cyhoeddus, faint maen nhw'n ei gostio, targedau, perfformiad, cwynion ac iawndal; a
- gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Mae rhai eithriadau i'r wybodaeth y gallwch ei chael o dan y cod. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y rhain, a'r cod, o Adran yr Arglwydd Ganghellor (www.lcd.gov.uk/foi/ogcode981.htm)

Bydd Deddf FOI yn disodli'r cod, pan ddaw i rym yn llawn yn Ionawr 2005.

## Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Mae ein cynllun yn rhestru pob math o wybodaeth, nid deunydd argraffedig yn unig. Mae'n cynnwys gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan, dogfennau unigol wedi eu hargraffu o'n cyfrifiaduron, dogfennau electronig, llyfrau printiedig, ac adroddiadau.

Mae ein cynllun ar gael mewn dwy fformat, ar ein safwe (www.cre.gov.uk), lle gallwch argraffu gwybodaeth, ac ar bapur.

Ar gyfer rhai dosbarthiadau arbennig o wybodaeth, ni fydd y cynllun yn ôl-weithredol. Er enghraifft, dim ond crynodeb o gofnodion cyfarfodydd comisiynwyr a gynhaliwyd ers 1 Tachwedd 2002 fydd ar gael drwy ein cynllun. Bydd gwybodaeth am bolisïau neu strategaethau yn cael eu dileu o'n cynllun os nad ydynt bellach yn gyfredol.

Ein prif weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ein cynllun. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd ar ysgwyddau'r rheolwr gwybodaeth (gweler manylion cysylltu ar dud.8).

Bydd copïau papur o'n cynllun ar gael o unrhyw swyddfa CRE ac oddi wrth TSO, ein hasiantaeth ddosbarthu (gweler manylion cysylltu).

Gwnawn bob ymdrech i ddarparu'r wybodaeth a geisir gennych yn yr iaith neu'r fformat a ddymunir gennych. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd raid i ni godi tâl am hyn, a byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw. Mae'r cynllun ein hun ar gael yn Gymraeg, ac mewn fformat mawr, os gofynnwch amdano.

Y nod, dros gyfnod o amser, yw sicrhau bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael am ein perfformiad, ein gwasanaethau, a'r ffordd y gwnawn benderfyniadau.

## Sut gaiff yr wybodaeth ei threfnu?

Yr egwyddor lywodraethol y tu ôl i drefn ein cynllun yw rhwyddineb mynediad. Does dim angen i chi wybod pa adran yn y CRE sy'n gyfrifol am bwnc arbennig neu fath o wybodaeth. Mae'r cynllun wedi ei rannu yn bedwar dosbarth neu feysydd pwnc bras. Fe rennir y rhain wedyn yn is-ddosbarthiadau pellach, a dylech fedru dod o hyd i'r wybodaeth benodol yr ydych yn chwilio amdani. Er enghraifft, fe ddowch o hyd i'n cyfrifon yn 'Cyllid' o dan 'Y CRE fel corff', a gwybodaeth am y cymorth a gynigiwn i bobl sy'n cwyno am wahaniaethu hiliol yn 'Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol' o dan 'Ein gwaith cyfreithiol'. Mae rhestr o'r is-ddosbarthiadau gwybodaeth o fewn y prif feysydd pwnc yn Atodiad 1. Byddwch yn gallu defnyddio'r cyfleuster chwilio ar ein gwefan i ddod o hyd i wybodaeth am y cynllun.

**1. Y CRE fel corff**

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am faterion corfforaethol. Er enghraifft, ein swyddogaeth a'n strwythur; ein swyddfeydd, enwau'r comisiynwyr presennol; crynodebau neu gofnodion o gyfarfodydd y comisiynwyr a chyfarfodydd pwyllgorau'r comisiwn; strategaethau busnes a chynlluniau gweithredu; rheolaeth y CRE; adroddiadau blynyddol; cyflogaeth yn y CRE; safonau'r gwasanaeth; cyllid; rhyddid gwybodaeth a gwarchod data; a'n cynllun cydraddoldeb hiliol.

Mae amryw o bolisïau mewnol yn cael eu hadolygu a'u hail-drafod ar y funud gyda'r undebau llafur cydnabyddedig yn y CRE. Bydd y polisïau hyn yn dod ar gael drwy'r cynllun wrth iddynt gael eu cytuno.

**2. Hyrwyddo arfer da**

Fe welwch bolisïau a strategaethau cyfredol yma yn ymwneud â phob agwedd o'n gwaith ar gyfle cyfartal, gwahaniaethu hiliol, a hybu cydraddoldeb hiliol a chysylltiadau hiliol da. Cynhwysir prosiectau ymchwil yn yr adran hon hefyd.

**3. Gwaith cyfreithiol**

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976; data am gymorth, cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl sy'n cwyno am wahaniaethu hiliol; adolygiadau o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol; a'n hymateb i bapurau gwyn, mesurau, a gwaith ymgynghorol arall gan y llywodraeth.

**4. Cyhoeddiadau a hyrwyddo**

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am gyhoeddiadau'r CRE sydd ar gael ar ein gwefan neu'n hasiantau dosbarthu; cynadleddau a digwyddiadau a drefnwyd gennym (yn annibynnol neu ar y cyd gyda mudiadau eraill); ymgyrchoedd addysgu'r cyhoedd; datganiadau i'r wasg; a gwobrau am ardderchowgrwydd.

## Sut alla'i gael yr wybodaeth?

**Gwybodaeth a gyhoeddir drwy'r cynllun**

Bydd pob adran o fewn y cynllun yn dangos sut a ble y gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth.

Os oes angen help arnoch i adnabod yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch, cysylltwch â'r gwasanaethau cwsmeriaid (gweler manylion cyswllt ar dud 8).

| | |
|---|---|
| ***Ar lein*** | Golyga hyn fod yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Bydd dolen gor-destun yn eich arwain i'r dudalen gywir. |
| ***Drwy'r post*** | Golyga hyn ein bod yn gallu anfon copi papur o'r wybodaeth hon atoch. Cyfeiriwch eich cais at y gwasanaethau cwsmeriaid os gwelwch yn dda (gweler manylion cyswllt). Pan ydych yn gofyn am wybodaeth, cynhwyswch y manylion canlynol os gwelwch yn dda: |

- eich enw a'ch cyfeiriad;
- yr wybodaeth neu'r dogfennau y mae arnoch eu hangen;
- y fformat yr hoffech ei gael ynddo – er enghraifft, copi papur, copi electronig drwy ebost, neu gopi electronig ar ddisg hyblyg; ac
- unrhyw dâl sy'n ddyledus (gweler t 8).

Sylwer nad ydym yn darparu copïau printiedig o wybodaeth ar wefannau mudiadau eraill. Dydyn ni ddim ychwaith yn gyfrifol am yr wybodaeth ar y gwefannau hynny.

***Dros y ffôn*** Gallwch hefyd ofyn am wybodaeth dros y ffôn drwy alw'r gwasanaethau cwsmeriaid (gweler manylion cysylltu). Gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi manylion cyswllt llawn, er mwyn i ni fedru galw i drafod unrhyw fanylion, os oes angen.

***Drwy ebost*** Os nad yw'r wybodaeth y gofynnwch amdani ar gael ar ein gwefan, ond ei fod wedi ei restru yn ein cynllun cyhoeddi, byddwn yn ei anfon atoch drwy'r ebost, lle bo hynny'n bosibl.

***Ymweliadau personol*** Ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth, bydd angen i chi wneud apwyntiad er mwyn gweld yr wybodaeth. Cysylltwch â'r gwasanaethau cwsmeriaid (gweler manylion cysylltu ar dud 8).

***TSO*** Golyga hyn fod yr wybodaeth ar gael fel llyfr printiedig neu daflen, ar werth neu yn rhad ac am ddim, oddi wrth TSO, ein dosbarthwyr. Fe welwch restr o'n holl gyhoeddiadau, wedi eu prisio ac am ddim, hefyd ar wefan TSO (gweler manylion cysylltu ar dud 8).

***Llyfrgell CRE*** Mae'r llyfrgell yn cynnwys dros 17,000 o lyfrau a chylchgronau. Gellir edrych ar doriadau papur newydd yn dyddio'n ôl i 1970 ar ficroffilm. Llyfrgell gyfeirio yw'r llyfrgell, sydd ar agor i'r cyhoedd o 10.00 – 16.00 ar ddyddiau'r wythnos. Gwnewch apwyntiad cyn i chi ymweld â'r llyfrgell os gwelwch yn dda (gweler manylion cysylltu).

**Gwybodaeth nas cyhoeddir drwy'r cynllun**

Nid yw'ch hawl i gael gafael ar bob math o wybodaeth o dan Ddeddf FOI yn dod i rym yn llawn hyd at Ionawr 2005. Fodd bynnag, fe allwch ofyn am wybodaeth nas rhyddhawyd gennym drwy ein cynllun cyhoeddi drwy ddefnyddio Cod Ymarfer Llywodraeth Agored ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth (gweler t 4).

Os oes arnoch eisiau gwybodaeth o dan y Cod Llywodraeth Agored, rhowch eich cais mewn ysgrifen os gwelwch yn dda (gan gynnwys ebost), gan roi cymaint o fanylion â phosibl, a'i anfon at y gwasanaethau cwsmeriaid (gweler manylion cysylltu ar dud 8). Ein nod yw ymateb i geisiadau syml o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn eich cais). Byddwn yn rhoi gwybod i chi os oes angen mwy o amser arnom.

**Gwybodaeth bersonol**
Mae'r Ddeddf Gwarchod Data 1998 yn rhoi hawl mynediad i bob person byw i wybodaeth bersonol a gedwir gennym amdanynt, ar gyfrifiaduron neu mewn systemau ffeilio â llaw. Fodd bynnag, y mae rhai eithriadau, a byddwn yn trin ceisiadau fesul un.

Anfonwch geisiadau am fynediad i wybodaeth o dan y Ddeddf Gwarchod Data mewn ysgrifen, at y rheolwr gwybodaeth (gweler manylion cysylltu isod). Rhowch gymaint o fanylion â phosibl er mwyn ein helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth.

**Manylion cysylltu**

| | |
|---|---|
| ***Rheolwr gwybodaeth*** | Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol<br>St Dunstan's House<br>201-211 Borough High Street<br>Llundain SE1 1GZ<br>Ffôn: 020 7939 0070 |
| ***Gwasanaethau cwsmeriaid*** | Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol<br>St Dunstan's House<br>201 - 211 Borough High Street<br>Llundain SE1 1GZ<br>Ffôn: 020 7939 0070 |
| ***Llyfrgell CRE*** | Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol<br>St Dunstan's House<br>201 - 211 Borough High Street<br>Llundain SE1 1GZ<br>Ffôn: 020 7939 0091 |
| ***TSO*** | Gwasanaethau Cwsmeriaid CRE<br>Blwch Post 29<br>Norwich NR3 1GN<br>Ffôn: 0870 240 3697<br>www.clicktso.com |

## A fydd yn costio rhywbeth i mi?

Hyd y mae hynny'n bosibl, rydym am sicrhau bod yr wybodaeth a restrir yn ein cynllun ar gael yn rhad ac am ddim. Os ydym yn codi tâl, bydd hyn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r canllawiau a gynhyrchir gan y Trysorlys ar ffioedd a thaliadau. O dan y Ddeddf FOI, fe allwn godi tâl am yr amser a dreulir gennym yn effeithiol yn chwilio am neu yn copïo cofnodion, yn seiliedig ar raddfa safonol fesul awr. Bydd y taliadau fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| ***Ein gwefan*** | Rhad ac am ddim |
| ***Drwy'r post*** | Rhad ac am ddim am un copi o'r ddogfen y mae arnoch ei hangen. Os ydych yn dymuno mwy nag un copi o'r wybodaeth, neu gopïau mewn ieithoedd neu fformat arbennig, mae'n bosibl y bydd raid i chi dalu. Os felly, fe rown wybod i chi ar y pryd, a beth fydd y tâl, fel y gallwch benderfynu a ydych am i ni fynd ymlaen. Bydd y tâl yn daladwy ymlaen llaw. |
| ***Ebost*** | Yn rhad ac am ddim, os na ddywedir fel arall pan wnewch eich cais. |
| ***Llyfrgell CRE*** | Gellir gweld gwybodaeth yn rhad ac am ddim. |
| ***TSO*** | Fe allwch brynu deunydd wedi'i brisio yn ogystal â chael taflenni neu lyfrynnau am ddim oddi wrth TSO, ein dosbarthwyr. |

## Alla'i wneud copïau o'r wybodaeth?

Mae'r CRE yn dal yr hawlfraint i'w holl gyhoeddiadau. Cysylltwch â'r rheolwr gwybodaeth am fanylion pellach (gweler manylion cyysIltu ar dud 8).

Ni chaniateir i chi ddyblygu defnyddiau a gawsoch gennym drwy ein cynllun cyhoeddi, os na cheir caniatâd ysgrifenedig. Fe allwn godi tâl.

## Sut alla`i wneud cwyn?

**Y cynllun cyhoeddi**

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am drefnu gweithrediad y cynllun cyhoeddi. Os oes gennych gwyn ein bod wedi methu rhoi gwybodaeth drwy'r cynllun, gallwch apelio'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, byddem yn eich cynghori i fynd drwy'r drefn adolygu fewnol yn gyntaf. Mae hyn yn golygu cyflwyno eich cwyn i ni yn uniongyrchol, mewn ysgrifen, wedi ei chyfeirio at y rheolwr gwybodaeth. Bydd swyddog annibynnol wedyn yn ymchwilio i'ch cwyn ac fe gewch wybod y canlyniad maes o law.

Dylid anfon apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth at data@dataprotection.gov.uk, neu drwy'r post at:

Y Comisiynydd Gwybodaeth<br>
Wycliffe House<br>
Water Lane<br>
Wilmslow<br>
Cheshire<br>
SK9 5AF

**Y Cod Llywodraeth Agored**

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd y gwnaethom ni drin eich cais am wybodaeth o dan y Cod Llywodraeth Agored (gweler t 4), neu gyda'r tâl a godwyd gennym, neu gyda'r rhesymau a roddwyd gennym dros wrthod darparu'r wybodaeth, mae gennych hawl i apelio.

Yn y lle cyntaf, dylech fynd drwy'n trefn adolygu fewnol (gweler uchod). Os ydych yn dal yn anfodlon, fe allwch apelio i'r Ombwdsmon Seneddol. Rhaid gwneud apêl i'r Ombwdsmon Seneddol trwy'ch AS, sy'n gorfod cyfeirio'r achos ymlaen. Fe allwch weld manylion pellach am hyn ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombudsman.org.uk).

**Y Ddeddf Gwarchod Data 1998 (DPA)**

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd yr ydym wedi trin eich cais i weld eich gwybodaeth bersonol o dan y DPA, dylech gysylltu â'r rheolwr gwybodaeth (gweler manylion cysylltu ar dud 8).

Os ydych yn dal i fod yn anhapus neu os ydych o'r farn fod y Ddeddf DPA wedi ei thorri, fe allwch ofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud asesiad. Mae manylion llawn am y drefn hon ar gael ar www.dataprotection.gov.uk neu drwy alw ar 01625 545745.

## Ydych chi'n bwriadu adolygu'r cynllun?

Ydym, mae ein cynllun yn ddogfen fyw. O dan Adran 19 o Ddeddf FOI, mae'n rhaid i ni adolygu'r cynllun yn rheolaidd a'i gyflwyno er mwyn cael ei ail-gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'n fwriad gennym i adolygu ein cynllun, a'r dosbarthiadau o wybodaeth, yn llawn o leiaf unwaith cyn i Ddeddf FOI ddod i'w llawn rym yn Ionawr 2005.

### Adborth

Mae'n bwysig fod ein cynllun yn cyflawni eich anghenion. Mae croeso i chi wneud sylwadau ac awgrymu sut y gallwn ei wella.

Er mwyn ein helpu, llenwch y ffurflen ar dudalen 29 a'i hanfon at ein rheolwr gwybodaeth (gweler manylion cysylltu ar dud 8).

# Y CYNLLUN CYHOEDDI

# 1. Y CRE fel corff

## 1.1 Gwybodaeth gyffredinol

### Swyddfeydd y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o holl swyddfeydd y CRE a manylion cyswllt |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/about.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Swyddogaeth a chyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Disgrifiad o'n pwerau a'n swyddogaethau |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/about.html<br>*Drwy'r post: gwasanaethau cwsmeriaid y CRE* |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Siart strwythur y corff

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Diagram o'n strwythur |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost*: gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Yn dilyn adolygiad gwerth gorau o'r CRE, rydym wrthi'n ailstrwythuro'r corff ar y funud. Bydd y diagram ar gael ar ein gwefan erbyn gwanwyn 2003, pan fydd y strwythur yn derfynol. |

### Adroddiadau blynyddol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Adroddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref am ein gweithgareddau, yr hyn a gyflawnwyd, llywodraeth a gwariant corfforaethol yn ystod y flwyddyn galendr. Atodiadau ar gael ar gyfer Yr Alban a Chymru (dwyieithog). |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* Mae adroddiadau blynyddol o 1998 ymlaen ar gael ar ein gwefan ar www.cre.gov.uk/publs/cat_annrep.html<br>*Drwy ymweliadau personol:* Gellir gweld adroddiadau am flynyddoedd eraill yn llyfrgell y CRE.<br>*Drwy'r post:* Gellir cael copïau o adroddiadau o 1998 ymlaen oddi wrth TSO. |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 1.2 Comisiynwyr y CRE

### Pwy ydyn nhw?

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o gomisiynwyr presennol y CRE, gan gynnwys y Cadeirydd, gyda bywgraffiadau byr |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/commissioners.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Pwyllgorau'r Comisiwn

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o'r pwyllgorau presennol a'u haelodaeth. Ar y funud mae naw o bwyllgorau gan y comisiwn, a dau is-bwyllgor, yn ymwneud â phob agwedd o'n gwaith a sut yr ydym yn rheoli ein hunain. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/comm_cttees.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim. |

### Cod ymarfer i'r comisiynwyr

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Arweiniad i safonau ac egwyddorion bywyd cyhoeddus, ac i gyfrifoldebau cyfun ac unigol y comisiynwyr. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim. |
| *Sylwer:* | Mae'r cod yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd ar gael ar ein gwefan erbyn gwanwyn 2003, pan fydd wedi ei gwblhau. |

**Cofrestr diddordebau'r comisiynwyr**

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o ddiddordebau a ddatganwyd gan gomisiynwyr a Chadeirydd y CRE |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmer y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

**Papurau'r comisiwn y cytunwyd arnynt**

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Crynodebau neu gofnodion cyfarfodydd y comisiwn llawn, o Dachwedd 1af 2002 ymlaen. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Os nad ydym yn cynnwys gwybodaeth oherwydd ei bod yn cael ei heithrio, byddwn yn gwneud hyn, a'r rhesymau dros hyn, yn amlwg yn y cyhoeddiad. Bydd crynodebau neu gofnodion ar gael bythefnos ar ôl cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol. |

**Papurau pwyllgorau'r comisiwn y cytunwyd arnynt**

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Crynodebau neu gofnodion o gyfarfodydd pwyllgorau'r comisiwn, o Dachwedd 1af 2002 ymlaen. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Os nad ydym yn cynnwys gwybodaeth oherwydd ei bod yn cael ei heithrio, byddwn yn gwneud hyn, a'r rhesymau dros hyn, yn amlwg yn y cyhoeddiad. Bydd crynodebau neu gofnodion ar gael bythefnos ar ôl cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol. |

**Rheolau sefydlog pwyllgorau'r comisiwn**

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rheolau ymddygiad a gweithdrefnau pob un o bwyllgorau'r comisiwn |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Mae'r rheolau sefydlog yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant ar gael ar ein gwefan erbyn gwanwyn 2003, pan fyddant wedi cael eu cwblhau. |

## 1.3 Cynllun cydraddoldeb hiliol

### Cynllun cydraddoldeb hiliol y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Y cynllun y mae gofyn i ni ei gynhyrchu o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Gwelliant) 2000, ein cynllun gweithredu presennol, ac adroddiadau perthynol ar fonitro, asesu ac ymgynghori. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/duty/duty_schemes.html<br>*Drwy'r post:* TSO |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Hefyd ar gael yn y Gymraeg, ac mewn print bras, os gwneir cais |

## 1.4 Rhyddid gwybodaeth a gwarchod data

### Cynllun cyhoeddi CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Ein cynllun ni o dan adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/pdfs/foicre.pdf<br>*Drwy'r post :* TSO |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Hefyd ar gael yn y Gymraeg, ac mewn print bras, os gwneir cais |

### Polisi gwarchod data

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Ein polisi ar gyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Gwarchod Data 1998 |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Polisi datgelu o ran budd y cyhoedd

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Ein polisi ar y camau y gall staff y CRE eu cymryd i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer gwael. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 1.5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

### Cynllun iaith Gymraeg y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Mae'r cynllun hwn yn esbonio sut y bydd y CRE yn trin yr iaith Gymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/pdfs/welsh_scheme_e.pdf (yn Saesneg) www.cre.gov.uk/pdfs/welsh_scheme_w.pdf (yn Gymraeg) *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg |

## 1.6 Rheolaeth y CRE

### Tîm rheoli corfforaethol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Enwau ac enwau swyddi aelodau cyfredol y tîm rheoli corfforaethol |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/cmt.html *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Strategaethau busnes

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Ein hamcanion tymor hir a'n gweledigaeth at y dyfodol, o 2002 ymlaen |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/publs/cat_annrep.html#plan *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Cynlluniau gweithrediadol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Dogfennau blynyddol yn amlinellu'r gweithgareddau a'r targedau a osodwyd gennym am y flwyddyn, i gyflawni ein hamcanion strategol, o 2002-2003 ymlaen |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Adolygiadau o'r CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Adolygiadau o'r CRE, a gomisiynwyd neu a wnaed gan y Swyddfa Gartref neu gan y CRE ei hun, o Ionawr 2002 ymlaen |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 1.7 Gweithgareddau ariannol

### Cyfrifon wedi eu harchwilio

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Adroddiadau o'r cyfrifon a archwiliwyd, o 2000-2001 ymlaen |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/pdfs/accounts01.pdf<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Nid yw'r cyfrifon a gyhoeddir yn ein hadroddiadau blynyddol wedi eu harchwilio. Y rheswm yw fod adroddiadau blynyddol yn seiliedig ar y flwyddyn galendr, fel sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Gan ei bod hefyd yn ofynnol arnom o dan y Ddeddf i gyhoeddi ein hadroddiadau blynyddol mor fuan â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, ni ellir archwilio'r cyfrifon mewn pryd ac fe'u cyhoeddir ar wahân. |

### Llawlyfr gweithrediadau ariannol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Y polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gennym i greu rheolaeth ariannol ac i weithredu gwasanaethau ariannol effeithiol. Mae'r llawlyfr yn cynnwys ein polisïau ar dalu anfonebau, ac ar gaffael nwyddau a gwasanaethau. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

#### Rhestr y grantiau a roddwyd

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o'r grantiau a roir yn flynyddol, o dan adran 44 y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* Cyhoeddir y rhestr fel atodiad i'n hadroddiad blynyddol. Mae'r adroddiadau o 1998 ymlaen ar gael ar ein gwefan www.cre.gov.uk/publs/cat_annrep.html<br>*Drwy ymweliad personol:* Gellir gweld adroddiadau blynyddol cyn 1998 yn llyfrgell y CRE<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

#### Cofrestr asedau cyffyrddadwy

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o'n hasedau cyfredol |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 1.8 Safonau'r gwasanaeth

#### Anelu'n uchel o ran cydraddoldeb: siarter i'r CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Y safonau a osodir gennym ar gyfer ein gwasanaethau |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/standards.html |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

#### Trefn gwyno

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Taflen yn esbonio sut y gall pobl wneud cwyn am ein gwasanaethau, a sut y byddwn yn ymdrin â'r gwyn |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/about/complain.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 1.9 Cyflogaeth yn y CRE

### Swyddi gwag y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Pob swydd wag a hysbysebir yn allanol |
| *Ar gael:* | *Ar lein*: www.cre.gov.uk/media/adverts.html |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Hyfforddiant a datblygiad staff

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Arweiniad i'n polisïau, gweithdrefnau a'n rhaglen hyfforddi, wedi ei diweddaru'n flynyddol |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### *Gwybodaeth i'w chynnwys yn y dyfodol*: Llawlyfr y staff

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhoddir copi o lawlyfr y staff i bob aelod o'r staff. Arweiniad ydyw i'r telerau ac amodau gwaith. Mae'n cyflwyno polisïau iechyd, diogelwch a lles; polisïau a gweithdrefnau personel; a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i'r staff. |
| *Ar gael:* | I'w gyhoeddi ar ein gwefan yng nghanol 2004 |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Rheswm am yr oedi:* | Mae llawlyfr y staff yn cael ei adolygu a'i ail-drafod yn drwyadl gyda'r undebau llafur cydnabyddedig yn y CRE. |

# 2. Hybu arfer da

## 2.1 Strategaethau a pholisïau

### Papurau strategaeth a pholisi

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Papurau strategaeth a pholisi yn y prif feysydd o fewn ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau strategol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol; er enghraifft addysg, tai, iechyd, llywodraeth leol, cyfiawnder troseddol, adfywhau, gwaith cydraddoldeb hiliol lleol, y sector preifat, a hybu'r ddyletswydd gyhoeddus. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 2.2 Cyfarwyddyd i'r sector

### Cyfarwyddyd i'r sector ar gyfer comisiynwyr a staff

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Cyfarwyddyd i'r sector ar gyfer comisiynwyr a staff ar rai o'r meysydd o fewn ein blaenoriaethau strategol. Mae cyfarwyddyd i'r sector yn cynnwys gwybodaeth gefndir, ystadegau, ac argymhellion polisi bras. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 2.3 Ymchwil

### Prosiectau ymchwil cyfredol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o brosiectau ymchwil a gomisiynwyd gan y CRE, ar y cyd neu mewn partneriaeth, ac yn dal i fynd yn 2002 |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

# 3. Gwaith cyfreithiol

## 3.1 Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

### Arweiniad i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Ystod eang o lyfrynnau a thaflenni ar wahanol agweddau o'r Ddeddf, eich hawliau, a sut i gael cyngor a chymorth gan y CRE os ydych yn credu bod rhywun wedi gwahaniaethu yn eich erbyn. Maent yn cynnwys codau ymarfer a chanllawiau statudol ac an-statudol. |
| *Ar gael:* | *Ar lein*: www.cre.gov.uk/publs/catalogue.html<br>*Drwy'r post:* TSO |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Data ar gyngor cyfreithiol a chymorth gan y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Gwybodaeth am nifer y ceisiadau ysgrifenedig a dderbynnir gan y CRE bob blwyddyn, nifer yr ymgeiswyr sy'n derbyn cynrychiolaeth gyfreithiol, a chanlyniadau tribiwnlysoedd a llysoedd |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* Fe gyhoeddir y data bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol. Mae'r adroddiadau o 1988 ymlaen ar gael ar ein gwefan ar www.cre.gov.uk/publs/cats_annrep.html<br>*Drwy ymweliad personol:* Gellir gweld adroddiadau blynyddol cyn 1998 yn llyfrgell y CRE. |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Adolygiadau o'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Argymhellion i'r Ysgrifennydd Cartref ar newidiadau deddfwriaethol er mwyn gwella effeithiolrwydd y Ddeddf. Mae'r CRE wedi cyflwyno tri adolygiad ers ei sefydlu yn 1977. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* Mae crynodeb o'r trydydd adolygiad ar gael ar ein gwefan ar www.cre.gov.uk/legaladv/rra_amend_review.html<br>*Drwy ymweliad personol:* Gellir gweld pob un o'r tri adolygiad yn llyfrgell y CRE. |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

### Adroddiadau am ymchwiliadau ffurfiol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Adroddiadau am gasgliadau ac argymhellion ymchwiliadau ffurfiol a wnaed gan y CRE |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* Mae rhestr o adroddiadau ar gael ar ein gwefan ar www.cre.gov.uk/publs/cats_fi.html<br>*Drwy'r post:* Gellir prynu copïau o'r adroddiadau gan TSO.<br>*Drwy ymweliad personol:* Gellir archwilio copïau o bob adroddiad yn rhad ac am ddim yn llyfrgell y CRE. |
| *Cost:* | Mae'r adroddiadau ar werth yn TSO. |

### Amserlen y pwyllgor cyfreithiol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Amserlen y pwyllgor cyfreithiol ar gyfer ystyried ceisiadau am gymorth gan y CRE |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 3.2 Ymatebion i gynigion ac ymgynghoriadau deddfwriaethol

### Ymatebion y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o ymatebion y CRE i gynigion ac ymgynghoriadau deddfwriaethol, o Ionawr 1af 2002 |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE<br>*Ar lein:* Ar hyn o bryd rydym yn paratoi fersiynau rhyngrwyd o'n hymatebion a byddant ar gael ar ein gwefan erbyn gwanwyn 2003. |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

# 4. Cyhoeddiadau a hyrwyddo

## 4.1 Cyhoeddiadau'r CRE

### Cyhoeddiadau cyfredol

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o holl gyhoeddiadau a nwyddau'r CRE sydd ar gael |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/publs/catalogue.html<br>*Drwy'r post:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Mae'r rhestr yn rhad ac am ddim. |
| *Sylwer:* | Gellir cael cyhoeddiadau'r CRE wedi eu prisio neu yn rhad ac am ddim gan y TSO. Gellir dadlwytho rhai o gyhoeddiadau'r CRE yn rhad ac am ddim o wefan y CRE, ac mae rhestr o'r rhain ar y wefan ar www.cre.gov.uk/publs/download.html |

### *Gwybodaeth i'w chynnwys yn y dyfodol:* Cwestiynau a ofynnir yn aml am gyhoeddiadau'r CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Gwybodaeth am hawlfraint; cyfieithu; defnydd o logo'r CRE; archebu cyhoeddiadau'r CRE; hysbysebu yn, a chyfrannu at, 'Connections' (cylchgrawn chwarterol y CRE), arddull y ty; a therminoleg. |
| *Ar gael:* | *Ar lein*: i'w cyhoeddi ar ein gwefan yng ngwanwyn 2003 |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Rheswm am yr oedi:* | Rydym wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru ac yn paratoi fersiwn rhyngrwyd o'n llawlyfr i'r staff. |

## 4.2 Cysylltiadau cyhoeddus

### Datganiadau'r CRE i'r wasg

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Datganiadau i'r cyfryngau ar wahanol agweddau o waith y CRE ers Medi 1998 |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/media/nr_new.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |
| *Sylwer:* | Dim ond drwy'r ebost neu'r post y mae rhai o'n datganiadau o swyddfa'r Alban ar gael. |

#### Cyfryngau lleiafrifoedd ethnig

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o bapurau newydd lleiafrifoedd ethnig ac allfeydd cyfryngol eraill, gyda manylion cyswllt |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/downloads/docs/em_media_list.doc<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

#### Cwynion am y cyfryngau

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Gwybodaeth am sut i gwyno am erthygl, darllediad neu raglen deledu |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/media/media_comps.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 4.3 Gwobrau

#### Gwobrau a sefydlwyd gan y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Gwybodaeth am y gwobrau a sefydlwyd gan y CRE i ddathlu ardderchowgrwydd mewn meysydd penodol, ac sy'n dal i fynd yn 2002. Yn cynnwys gwobrau Hil yn y Cyfryngau, a ddechreuwyd 11 mlynedd yn ôl i annog sylw goleuedig i gysylltiadau hiliol yng nghyfryngau'r DU yn gyffredinol. |
| *Ar gael:* | *Ar lein:* www.cre.gov.uk/media/rima.html<br>*Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 4.4 Cynadleddau a digwyddiadau

#### Cynadleddau a digwyddiadau a drefnir gan y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o gynadleddau a digwyddiadau a drefnir gan y CRE, ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth, o Dachwedd 1af 2002 ymlaen. |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

## 4.5 Ymgyrchoedd addysg gyhoeddus

### Ymgyrchoedd a drefnir gan y CRE

| | |
|---|---|
| *Disgrifiad:* | Rhestr o ymgyrchoedd a drefnir gan y CRE, ac sy'n dal i fynd yn 2002 |
| *Ar gael:* | *Drwy'r post neu ebost:* gwasanaethau cwsmeriaid y CRE |
| *Cost:* | Rhad ac am ddim |

# Atodiad 1: Rhestr o ddosbarthiadau o wybodaeth

Mae seren yn golygu bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf.

## 1. Y CRE fel corff

### 1.1. Gwybodaeth gyffredinol

- Swyddfeydd y CRE
- Swyddogaeth a chyfrifoldebau
- Siart strwythur y corff *
- Adroddiadau blynyddol

### 1.2. Comisiynwyr y CRE

- Pwy ydyn nhw?
- Pwyllgorau'r comisiwn
- Cod ymarfer ar gyfer comisiynwyr *
- Cofrestr diddordebau'r comisiynwyr *
- Papurau'r comisiwn y cytunwyd arnynt *
- Papurau pwyllgorau'r comisiwn y cytunwyd arnynt *
- Rheolau sefydlog ar gyfer pwyllgorau'r comisiwn *

### 1.3 Cynllun cydraddoldeb hiliol

- Cynllun cydraddoldeb hiliol y CRE

### 1.4 Rhyddid gwybodaeth a gwarchod data

- Cynllun cyhoeddi'r CRE *
- Polisi gwarchod data*
- Polisi datgelu er budd y cyhoedd *

### 1.5. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

- Cynllun Iaith Gymraeg y CRE

### 1.6. Rheolaeth y CRE

- Y tîm rheoli corfforaethol
- Strategaethau busnes
- Cynlluniau gweithredu
- Adolygiadau o'r CRE

### 1.7. Gweithgareddau ariannol

- Cyfrifon wedi eu harchwilio
- Llawlyfr Gweithgareddau Ariannol *
- Rhestr o grantiau a roddwyd
- Cofrestr asedau cyffyrddadwy *

### 1.8. Safonau'r gwasanaeth

- Anelu'n uchel o ran cydraddoldeb : Siarter y CRE
- Trefn gwyno

### 1.9. Cyflogaeth yn y CRE

- Swyddi gweigion
- Hyfforddiant a Datblygu Staff *
- *Gwybodaeth i'w chynnwys yn y dyfodol*: Llawlyfr y staff *

## 2. Hybu arfer da

### 2.1. Strategaethau a pholisïau

- Papurau polisi a strategaeth *

### 2.2. Cyfarwyddyd i'r sector

- Cyfarwyddyd i'r sector ar gyfer comisiynwyr a staff *

### 2.3. Ymchwil

- Prosiectau ymchwil cyfredol

## 3. Gwaith cyfreithiol

### 3.1. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

- Arweiniad i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol
- Data ar gyngor cyfreithiol a chymorth gan y CRE
- Adolygiadau ar y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol
- Adroddiadau ar ymchwiliadau ffurfiol
- Amserlen y pwyllgor cyfreithiol *

### 3.2. Ymatebion i gynigion ac ymgynghoriadau deddfwriaethol

- Ymatebion y CRE *

## 4. Cyhoeddiadau a hyrwyddo

### 4.1. Cyhoeddiadau'r CRE

- Cyhoeddiadau cyfredol
- *Gwybodaeth i'w chynnwys yn y dyfodol*: Cwestiynau a ofynnir yn aml am gyhoeddiadau'r CRE

### 4.2. Cysylltiadau cyhoeddus

- Datganiadau'r CRE i'r wasg
- Cyfryngau'r lleiafrifoedd ethnig
- Cwynion am y cyfryngau

### 4.3. Gwobrau

- Gwobrau a sefydlwyd gan y CRE

### 4.4. Cynadleddau a digwyddiadau

- Cynadleddau a digwyddiadau wedi eu trefnu gan y CRE*

### 4.5. Ymgyrchoedd addysg gyhoeddus

- Ymgyrchoedd a drefnir gan y CRE

# Atodiad 2: Ffurflen adborth

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Eich mudiad: | |
| Eich cyfeiriad ebost neu fanylion cyswllt eraill (fel y gallwn ymateb i'ch sylwadau): | |
| Oedd y strwythur yn hawdd neu'n anodd i'w ddilyn? | ☐ Hawdd iawn<br>☐ Hawdd<br>☐ Anodd<br>☐ Anodd iawn |
| Wnaethoch chi ddod o hyd i'r wybodaeth yr oeddech yn chwilio amdani? | ☐ Do<br>☐ Naddo |
| Oes yna bynciau neu fathau o wybodaeth yr hoffech eu gweld yn ein cynllun cyhoeddi nad ydynt yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd? | |
| Unrhyw sylwadau eraill? | |

**Dychwelwch y ffurflen os gwelwch yn dda at**

Gwasanaethau'r Cwsmeriaid
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
St Dunstan's House
201-211 Borough High Street
Llundain SE1E 1 GZ

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol 2002

ISBN 1 85442 502 1